

Cyfeirnod: IR767

Dyddiad cyhoeddi: 19 Ionawr 2021

Ymchwiliad i grantiau Llywodraeth Cymru i gwmnïau preifat

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch cais am wybodaeth isod 28 Rhagfyr 2020 lle gwnaethoch ofyn am wybodaeth am ymchwiliadau i grantiau Llywodraeth Cymru i gwmnïau preifat, drwy gyfeirio at erthygl gan y BBC a gyfeiriodd at Kancoat Limited a KUKd Limited.

Er hwylustod, rwyf wedi atgynhychu eich cwestiynau isod ac wedi nodi ein hymatebion cyfatebol:

Rwy'n chwilio am yr adroddiad ymchwiliol gan Swyddfa Archwilio Cymru ar sut mae Llywodraeth Cymru yn rhoi grantiau i gwmnïau preifat. Os na ddaeth yr adroddiad i derfyn yna hoffwn wybod beth oedd y rheswm, gan gynnwys unrhyw ohebiaeth e-bost ar y mater gan yr Archwilydd Cyffredinol Huw Vaughan Thomas.

Cyhoeddwyd yr Adroddiad ar gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Kancoat Ltd ym mis Gorffennaf 2016 ac mae ar gael ar ein gwefan wrth i [Lywodraeth Cymru ariannu Kancoat Ltd | Archwilio Cymru](#)

Cwblhawyd adolygiad cyffredinol gennym, astudiaeth gwerth am arian, a oedd yn canolbwyntio ar ddull Llywodraeth Cymru o reoli cymorth ariannol i fusnesau:

<https://www.audit.wales/cy/publication/cymorth-ariannol-llywodraeth-cymru-ar-gyfer-busnesau>

Rydym wedi cyhoeddi adroddiadau eraill sy'n berthnasol i fater cyllid busnes sydd ar gael ar wefan Archwilio Cymru, gan gynnwys:

<https://www.audit.wales/cy/publication/perthynas-llywodraeth-cymru-pinewood>

<https://www.audit.wales/cy/publication/cyllid-cychwynnol-llywodraeth-cymru-ar-gyfer-prosiect-cylchffordd-cymru>

<https://www.audit.wales/cy/publication/cyllid-gan-lywodraeth-cymru-i-ynni-sir-gar-cyf>

Gan fod y wybodaeth hon yn rhesymol hygyrch i chi drwy ddulliau eraill, mae hyn wedi'i eithrio rhag cael ei ddatgelu o dan adran 21 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Os hoffech ofyn am adolygiad mewnol ynglŷn â'r ffordd yr ymdriniwyd â'ch cais, ysgrifennwch at Martin Peters, Pennaeth Cyfraith a Moeseg, drwy e-bost at martin.peters@archwilio.cymru neu drwy'r post i 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

Rhaid imi hefyd eich cyfeirio at adran 50 Deddf Rhyddid Gwybodaeth lle gallwch wneud cais i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad ynghylch a ymdriniwyd â'ch cais ai peidio yn unol â'r Ddeddf. Manylion cyswllt y Comisiynydd Gwybodaeth yw:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO)

Wycliffe House

Water Lane

Wilmslow

Cheshire SK9 5AF

e-bost: casework@ico.gsi.gov.uk

Tel: 01625 545745

Ffacs: 01625 524510

Dylech nodi, fodd bynnag, y byddai'r Comisiynydd Gwybodaeth fel arfer yn disgwyl i chi fod wedi disbyddu ein gweithdrefnau cwyno mewnol cyn delio â chais o'r fath.

Mae rhagor o ganllawiau ar gael ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth:

<https://ico.org.uk/>

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir

Swyddog Gwybodaeth